

Teitl: Title:	Polisi Elusen a Chodi Arian y Coleg
Fersiwn: Version	Fersiwn 1
I bwy mae'r Polisi hwn yn berthnasol? Who does this Policy Relate to?	Myfyrwyr / Staff / Myfyrwyr a Staff / Arall (rhowch fanylion) Myfyrwyr

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth / Equality & Diversity

Dolen at Gam 1 Asesu Effaith (ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg): / Impact Assessment Stage 1 (Equality & Welsh) link:	Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a Chydraddoldeb ac Amrywiaeth - Polisi Elusen y Coleg
<i>Effaith ar yr Iaith Gymraeg</i> <i>Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar yr Iaith Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011.</i>	<i>Welsh Language Impact</i> <i>Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar y Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.</i>

Adolygu a Chymeradwyo / Review and Approval

Perchennog y Ddogfen: Document Owner:	Teitl swydd / Job title <i>Rheolwr Profïadau Dysgwyr</i>		
Ymgynghoriad/ Consultation:	Rhestrwch nhw / Please list <i>Grŵp Llywio Elusen</i>		
Dyddiad Cymeradwyo / Date Approved	Cymeradwyaeth y Pwyllgor Mewnol e.e. Grŵp Diogelu / Internal Committee Approval e.g. Safeguarding Group	Enw'r Grŵp a'r Dyddiad / Name of group & date <i>Grŵp Cyfathrebu a Diwylliant 6 Medi 2023</i>	
	Pwyllgor Cyfathrebu a Diwylliant / Communications & Culture Committee:	<i>25/10/2023</i>	
	Pwyllgorau'r Bwrdd / Board Committees:	Pwyllgor Archwilio a Risg / Audit & Risk Committee:	<i>Amherthnasol</i>
		Pwyllgor Cwricwlwm a Safonau / Curriculum & Standards Committee	<i>Amherthnasol</i>
		Pwyllgor Cyllid, Pobl a Diwylliant / Finance, People & Culture Committee:	<i>Amherthnasol</i>
Corff Llywodraethu / Governing Body:	<i>Amherthnasol</i>		
Dyddiad Adolygu: Review Date:	Medi 2026		

Anfonwch y ddogfen wedi ei chymeradwyo i'w chyfieithu gan ddefnyddio'r [Ffurflen Cais Cyfieithu](#)
Send approved document for Translation using the [Translation Request Form](#)

Tabl Cynnwys

Polisi Elusen y Coleg

1. Datganiad Polisi	3
2. Pwrpas a Diben	3/4
3. Cofnodi a Bancio Digwyddiadau Codi Arian	4
4. Canllawiau Codi Arian	5
5. Canllawiau Gwirfoddoli	5
6. Swyddogaethau a Chyfrifoldebau	6

Polisi Elusen a Chodi Arian y Coleg

1. Datganiad Polisi

1.1 Mae Cambria yn cydnabod pwysigrwydd rhoi yn ôl i'n cymunedau ac effaith gadarnhaol mentrau elusennol ar gymdeithas.

1.2 Mae Coleg Cambria wedi ymrwymo i fod wrth galon ein cymunedau, ymgysylltu'n weithredol gyda nhw i sicrhau ein bod yn diwallu eu hanghenion drwy'r amser, a'u cefnogi i ffynnu a chryfhau. Wedi'i gynnwys yng ngwerthoedd ein coleg mae gwerth am fod yn gymuned – adeiladu pontydd fel ein bod yn cysylltu gyda'n cymunedau lleol i gydweithio ar ein diddordebau cyffredin, gan gyfrannu'n weithredol at gynaliadwyedd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ein cymunedau lleol.

1.3 Drwy fenter Calon y Coleg ein nod yw annog a chefnogi cyfleoedd gwirfoddoli a chodi arian at elusennau ar gyfer myfyrwyr a chydweithwyr ar gyfer unrhyw elusennau cofrestredig a chymeradwy lleol ynghyd â chefnogi diwrnodau codi arian cenedlaethol ac apeliadau brys. Rydym yn credu'n gryf fod cymryd rhan mewn mentrau o'r fath yn cynyddu ymgysylltiad, llesiant a datblygiad sgiliau ein cydweithwyr a'n myfyrwyr.

1.4 Bydd y polisi hwn yn helpu'r coleg i:

- Fonitro gweithgareddau gwirfoddoli ar draws y coleg
- Gosod canllawiau ar gyfer ymarferion diogel
- Cynorthwyo'r gymuned leol yr ydym ni'n ei gwasanaethu drwy fynd i'r afael â heriau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.
- Annog ac ysbrydoli dysgwyr i gymryd rhan mewn gweithgareddau gwirfoddoli ac elusennol.
- Hyrwyddo ymgysylltiad a chadw gweithwyr trwy ddarparu cyfleoedd i staff gymryd rhan mewn gweithgareddau elusennol a gwirfoddoli.
- Gwneud y mwyaf o'n hadnoddau, arbenigedd, a rhwydweithiau i gael effaith gadarnhaol ar gymdeithas.
- Alinio ymdrechion elusennol Cambria â gwerthoedd ein coleg i sicrhau'r effeithiolrwydd mwyaf a llwyddiant hirdymor.
- Rheoli a rhannu gweithgareddau yn y coleg ac yn allanol (cymuned > cenedlaethol)
- Cynghori staff a myfyrwyr ar sut i ymgysylltu â busnesau lleol o ran darparu cymorth ar gyfer gweithgareddau codi arian / cyfleoedd gwirfoddoli

2. Diben a Chwmpas

2.1 Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl gydweithwyr a myfyrwyr Coleg Cambria ac mae'n berthnasol i'r holl weithgareddau elusennol a gyflawnir gan Goleg Cambria, gweithgareddau codi arian a gynhelir ar bob safle a'r holl cyfleoedd gwirfoddoli.

2.3 Bydd y Coleg yn cefnogi nifer o elusennau cofrestredig lleol sy'n darparu gwasanaethau yn ardaloedd ein hawdurdodau lleol gan gynnwys Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam, ac sy'n darparu gwasanaethau yn unol ag ethos a gwerthoedd y Coleg. Yn ogystal, mae cefnogaeth barhaus i'n cydweithwyr a myfyrwyr gymryd rhan mewn gweithgareddau codi arian ar gyfer diwrnodau codi arian cenedlaethol (h.y. bore coffi Macmillian, Diwrnod Siwmpwr Nadolig ac ati).

2.4 Mae'r weithdrefn hon yn manylu ar ein hymagwedd at sicrhau bod unrhyw waith codi arian a wneir yn enw'r coleg yn cael ei wneud yn ddiogel, ac mewn modd cydgysylltiedig a chyfreithiol, gan gynnal enw da Coleg Cambria. Bydd yn galluogi hyblygrwydd ar gyfer cymorth cwricwlwm a busnes i barhau i gefnogi eu hachosion lleol a phartneriaethau cymunedol, gan roi'r cyfle i fyfyrwyr ddatblygu'n ddinasyddion gweithredol.

2.5 Mae polisi Elusen Coleg Cambria wedi'i rannu'n 2 ffrwd:

- Gwirfoddoli
- Codi Arian

Mae'r amcan ar gyfer pob ffrwd fel a ganlyn:

Gwirfoddoli

- Cael effaith gadarnhaol yn y gymuned trwy helpu eraill a gwneud gwahaniaeth.
- Datblygu sgiliau newydd a chael profiadau newydd.
- Cyfarfod â phobl newydd a meithrin perthnasoedd yn y cymunedau lleol.
- Cynyddu boddhad a llesiant personol staff a dysgwyr.

Codi Arian

- Codi swm penodol o arian ar gyfer elusen / achos cofrestredig
- Recriwtio cefnogwyr newydd
- Cynyddu ymwybyddiaeth
- Datblygu cysylltiadau yn y gymuned
- Tracio'r canlyniadau

3. Cofnodi a Bancio Digwyddiadau Codi Arian

3.1 Dylai cydweithwyr neu fyfyrwyr sy'n dymuno codi arian lenwi'r ffurflen codi arian/gwirfoddoli ar-lein yn y lle cyntaf.

3.2 Dim ond elusennau cofrestredig Byddai'r Coleg fel arfer ond yn cefnogi elusennau cofrestredig neu ar gyfer clybiau a chymdeithasau'r Coleg. Darganfyddwch os yw eich Elusen yn [gofrestredig](#). Os nad oes elusen benodol gan y rhai sy'n codi arian, bydd y Coleg yn cadw rhestr o elusennau a argymhellir bob blwyddyn.

- Llenwch y [ffurflen](#) codi arian / gwirfoddoli ar-lein
- Dilynwch broses / [siart llif](#) y coleg ar gyfer casglu a bancio arian parod
- Ychwanegwch a diweddarwch ddigwyddiadau a gweithgareddau a gynhaliwyd ar [galendr](#) Calon
- Hyrwyddwch a gwnewch adroddiad am y gweithgarwch ar Calon Happeo

- Dylai myfyrwyr ddiweddarau gweithgarwch ar y blogiau Llais Myfyrwyr ar Hwb Myfyrwyr

4. Canllawiau Codi Arian

- 4.1 Rhaid i bob achos o godi arian fod yn barchus ac ystyriol. Ni ddylai myfyrwyr a chydweithwyr gael eu rhoi mewn sefyllfa lle maent yn teimlo bod yn rhaid iddynt gyfrannu.
- 4.2 RHAID i'r holl elw a gesglir fynd at yr elusen neu achos penodedig, a rhaid cadw prawf.
- 4.3 Ni ddylai deunyddiau achosi tramgwydd a dylent gadw at gyfreithiau hawlfraint.
- 4.4 Dylai'r holl weithgareddau gael eu cynllunio'n briodol a chael mesurau rheoli addas ar waith fel y gellir eu cynnal yn ddiogel i bawb dan sylw. Os nodir unrhyw beryglon neu risgiau sylweddol y tu hwnt i asesiad risg cyffredinol y coleg, yna dylid ychwanegu'r rhain at yr asesiad risg. Os yw pobl sy'n codi arian yn ansicr yna dylent ymgynghori gyda'r tîm lechyd a Diogelwch.
- 4.5 Byddai angen i drefnydd y digwyddiad (aelod o staff) gyflwyno asesiad risg oddi ar y safle i'r tîm lechyd a Diogelwch ar gyfer unrhyw ddigwyddiadau codi arian oddi ar y safle. Yr un wybodaeth fydd hon ag ar gyfer gwibdaith.
- 4.6 Mae angen storio'r holl arian yn ddiogel a'u trosglwyddo i'r elusen benodol yn ôl amserlen sydd wedi'i diffinio'n glir. Gweler y [siart llif](#).

5. Canllawiau Gwirfoddoli

5.1 Mae gwerthoedd y coleg yn sail i ethos Strategaeth Elusennol y Coleg, gan annog diwylliant a chymuned gadarnhaol yn y coleg:-

- Dangos gonestrwydd ac uniondeb
- Cael ein parchu a'n gwerthfawrogi
- Bod yn garedig a chefnogol
- Gweithio gydag eraill
- Teimlo'n gydradd a chynhwysol
- Bod yn gymuned
- Bod yn rhagorol ac yn ysbrydoledig
- Annog ac ysgogi datblygiad
- Bod yn angerddol
- Bod yn arloesol

5.2 Lleoliadau gwirfoddoli:

Bydd asesiad diogelwch o'r busnes/elusen/grŵp dewisol yn cael ei gynnal yn y lle cyntaf gan Swyddog Lleoli (dros y ffôn ar gyfer risg isel i ganolig; neu drwy ymweliad ar gyfer risg uwch). Bydd angen i staff lenwi ffurflen ar Happeo i gychwyn hyn ar ran y myfyriwr (mae angen o leiaf pythefnos o amser dychwelyd)

5.3 Gweithgarwch gwirfoddoli (e.e. 'Dee Clean', adeiladu waliau cerrig):

Byddai angen i drefnydd y digwyddiad (aelod o staff) gyflwyno asesiad risg oddi ar y safle i'r tîm Iechyd a Diogelwch yn y lle cyntaf. Yr un wybodaeth fydd hon ag ar gyfer gwibdaith. Yn ogystal, efallai y bydd angen copi o'r asesiad risg gan yr elusen.

6. Swyddogaethau a Chyfrifoldebau

6.1 Mae gan y Dirprwy Brif Weithredwr (Profiadau Pobl a Diwylliant) gyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod y Polisi Elusen yn cael ei weithredu a'i fonitro'n llawn.

6.2 Bydd y Rheolwr Profiadau Dysgwyr, trwy Grŵp Llywio Calon, yn gyfrifol am hyrwyddo a chyfathrebu digwyddiadau codi arian a sicrhau cydymffurfiaeth â gweithdrefnau trin arian parod.

6.3 Bydd Grŵp Llywio Calon yn rhoi trosolwg a chyfeiriad ar gyfer gweithredu Polisi Elusen y Coleg, ynghyd â rhoi diweddariad ar weithgarwch mewn cyfnodau blaenorol i Grŵp Cyfathrebu a Diwylliant y Coleg.

6.4 Bydd yr Arweinwyr Elusennau Safle (Rheolwyr Safle) yn cysylltu bob tymor â Chynrychiolwyr Myfyrwyr yng nghyfarfod Cyngor y Safle lle bydd gweithgaredd Calon yn ymddangos fel eitem ar yr agenda. Bydd y Rheolwyr Safle, yn eu tro, yn cyflwyno diweddariad ar ddatblygiad a chodi ymwybyddiaeth o gyfleoedd codi arian elusennol a gwirfoddoli fel eitem agenda ym mhob un o gyfarfodydd y Safle.

6.5 Bydd gan Gyfarwyddwyr Cwricwlwm drosolwg o'r holl weithgarwch yn eu hadran o'r Google Form a ddefnyddir gan eu dysgwyr a'u cydweithwyr.

6.6 Bydd Cynrychiolwyr Myfyrwyr yn cael hyfforddiant yn yr hanner tymor cyntaf ar sut i annog, cefnogi a hyrwyddo Codi Arian a Gwirfoddoli Calon gyda'u dosbarth. Byddant yn cael eu cefnogi gan y tîm Profiadau Dysgwyr ar draws pob safle. Bydd Cynrychiolwyr Myfyrwyr yn cael eu hannog i hyrwyddo a chofnodi eu gweithgarwch trwy flog Llais y Myfyrwyr, Ap Myfyrwyr a Chyfarfodydd Cyngor y Safle.

6.7 Bydd y Swyddog Menter Myfyrwyr yn cael hyfforddiant priodol i weithio gyda Chynrychiolwyr Myfyrwyr a'r Rheolwr Profiadau Dysgwyr i hyrwyddo a chyfathrebu digwyddiadau codi arian ac i gofnodi gweithgarwch trwy flog Llais Myfyrwyr ac Ap Myfyrwyr.